# Yr Iaith Gymraeg
18/12/12

**Cais am Wybodaeth**

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 17 Rhagfyr, pan wnaethoch ofyn,

*Hoffwn wneud ymholiad ynghylch canran/nifer yr Aelodau Cynulliad sy'n rhugl yn yr Iaith Gymraeg.*

Nid yw Comisiwn y Cynulliad yn casglu nac yn cadw'r wybodaeth hon. Mae'r Comisiwn yn darparu cyfleusterau dwyieithog llawn i gefnogi gwaith y Cynulliad, felly gall unrhyw Aelod weithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae cofnodion Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgor yn dangos hyn a gellir eu gweld drwy'r linciau canlynol ar wefan y Cynulliad.

Cofnod trafodion Cyfarfodydd Llawn
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-chamber-fourth-assembly-rop.htm

Gellir gweld trafodion pwyllgorau ar y tudalennau o dan bob pwyllgor, sydd wedi'u rhestru ar y linc hwn
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgListCommittees.aspx?bcr=1

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**